

## MENTER LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

### CYNLLUN GRANT TOILEDAU CYMUNEDOL

#### NODIADAU CANLLAW

1. Mae'r Cynllun Grant Toileddau Cymunedol yn hwyluso partneriaethau rhwng awdurdodau lleol a busnesau lleol, fel tafarndai, swyddfeydd post a siopau i gydweithio gyda'i gilydd i ddarparu cyfleusterau glanach, diogelach a mwy hygyrch ar gyfer y cyhoedd.
2. Bydd awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan yn y cynllun yn cael grant blynyddol oddi wrth Llywodraeth Cynulliad Cymru i ad-dalu busnesau sy'n caniatáu'r cyhoedd i ddefnyddio eu cyfleusterau, hyd at uchafswm o werth ad-daliad.
3. Mae Adran Gwasanaethau Amgylcheddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar hyn o bryd yn cynnal arolwg o gyfleusterau cyhoeddus a ddarperir trwy'r sir. Un o'r elfennau sy'n cael ei adolygu yn ystod yr ymarfer yma ydi ymarferoldeb rhedeg Cynllun Grant Toileddau Cymunedol yng Nghonwy.
4. Dylai busnesau ddefnyddio'r holiadur canlynol i gofrestru eu diddordeb mewn cymryd rhan mewn Cynllun Grant Toileddau Cymunedol gyda Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Bydd ffurflenni yn cael eu defnyddio i benderfynu ar ymarferoldeb rhedeg cynllun yng Nghonwy, ac, os yw'n ymarferol, bydd yn cael ei ddefnyddio i benderfynu ar y cyfleusterau mwyaf addas i'w cynnwys yn y cynllun.
5. Dylid anfon yr holiaduron i'r cyfeiriad isod:-

Cynllun Grant Toileddau Cymunedol  
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
Blwch Post 1  
Conwy  
LL30 9GN

#### MANYLION PELLACH AM Y CYNLLUN

Er bod angen penderfynu ar fanylion terfynol Cynllun Grant Toileddau Cymunedol yng Nghonwy, mae'r nodiadau canlynol yn darparu ychydig o wybodaeth bellach ynglŷn â manylion posibl unrhyw gynllun a fabwysiadir.

1. Gall unrhyw fusnes sydd â diddordeb wneud cais i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gael eu cynnwys yn y cynllun. Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried yn y lle cyntaf ar eu lleoliad a'r ddarpariaeth leol gyfredol. Os ydynt yn addas, bydd yr eiddo wedyn yn cael eu hasesu gan Swyddog y Cyngor, ac os yn briodol bydd cynnig ariannol yn cael ei wneud yn amodol ar y nifer, safon a math o gyfleusterau sydd ar gael a'r oriau agor.
2. Mae'n rhaid i unrhyw eiddo sy'n cyfmrtyd rhan fod ag Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus (fel y pennwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy). **Bydd angen i bob ymgeisydd ddarparu copi o dystysgrif yswiriant ddilys.**

3. Bydd eiddo sy'n cymryd rhan yn arddangos sticer yn eu ffenestri yn dynodi bod cyfleusterau i ddynion, merched, cadair olwyn a chyfleusterau newid babi ar gael, fel bo'n briodol. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn trefnu arwyddion cyn y sefydlir dyddiad dechrau swyddogol.
4. Bydd aelodau o'r cyhoedd yn cael defnyddio'r cyfleusterau cyhoeddus yn ystod oriau busnes heb orfod prynu dim.
5. Ni ddyfernir mwy na £500 y flwyddyn. Pe bai busnes yn cael ei wneud yn rhan o'r cynllun, bydd taliad yn cael ei wneud unwaith y flwyddyn ar ôl cyfnod o chwe mis.
6. Bydd Cofnod Cytundeb yn cael ei lofnodi gan y Cyngor a pherchennog/ rheolwr/ cynrychiolydd y busnes i sefydlu'r Bartneriaeth yn ffurfiol. Bydd y cytundeb am gyfnod o dair blynedd, ond gellir ei thrafod lle credir nad yw hyn yn briodol. Gellir tynnu nôl o'r cynllun ar unrhyw adeg trwy roi 3 mis o rybudd.
7. Bydd yr eiddo yn cael ei archwilio'n rheolaidd ac o leiaf unwaith y flwyddyn.

## HOLIADUR

|    |                    |  |
|----|--------------------|--|
| A1 | Enw llawn y busnes |  |
|----|--------------------|--|

|    |  |  |
|----|--|--|
| A2 | Enw perchennog/ rheolwr/<br>cynrychiolydd y busnes |  |
|----|--|--|

|    |                          |  |
|----|--------------------------|--|
| A3 | Cyfeiriad llawn y busnes |  |
|----|--------------------------|--|

|    |                   |  |
|----|-------------------|--|
| A4 | Rhif Ffôn Cyswllt |  |
|----|-------------------|--|

|         |   |  |
|---------|---|--|
| A5      | Nifer a math y toiledau a fyddai ar gael trwy'r cynllun |  |
| Dynion  |   |  |
| Merched |   |  |
| Anabl   |   |  |

|    |   |  |
|----|---|--|
| A6 | Oes yna gyfleusterau newid babanod ar gael? |  |
|    | Oes   |  |
|    | Nac oes                                     |  |

|              |                     |  |  |
|--------------|---------------------|--|--|
| A7           | Oriau agor y busnes |  |  |
| Dydd Llun    |                     |  |  |
| Dydd Mawrth  |                     |  |  |
| Dydd Mercher |                     |  |  |
| Dydd Iau     |                     |  |  |
| Dydd Gwener  |                     |  |  |
| Dydd Sadwrn  |                     |  |  |
| Dydd Sul     |                     |  |  |

Llofnod y Rheolwr/Perchennog Busnes:

Dyddiad:

.....

.....

Llofnod y Swyddog/Gweithiwr y Cyngor:

Dyddiad:

.....

.....

Manylion banc er mwyn gwneud taliad:

.....